



[www.capelytraeth.com](http://www.capelytraeth.com)

## Rhif 92

## Hydref 2018

07	Bob Morris	Mrs Gretta George
14	Gwasanaeth Diolchgarwch	Mrs Eleri Jones
21	Parch Iwan Ll. Jones (J)	Mrs Joyce Jones
28	Elfed Lewis (J)	Dr Helen Tudor

- 02 Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30
- 04 Clwb Ieuentid yn y Festri am 6.00 – manylion ar gefn y Cylchlythyr
- 09 Drws Agored yn y Festri 10.00 – 11.30 Dan ofal y dynion.
- 09 Cyfarfod y Chwirydd yn y Festri 1.00
- 14 Swper Diolchgarwch 5.00
- 16 Y Gymdeithas Ddiwylliadol 7.15 yn y Festri  
Noson o adloniant gyda 'Pwy 'sa'n meddwl?'

Llywydd y mis: Dewi Jones  
Croesawu: Jerusalem  
Glanhau: John a Siân  
Ymweld: John a Siân  
Glanhau Festri Jerusalem: Buddug

### **SYMUD YMLAEN (4)**

Yn ystod Oedfa fore Sul, 9 Medi, enwebwyd tri o'r aelodau i gynorthwyo'r swyddogion yn y trafodaethau sydd o'n Blaenau. Y tri a enwebwyd ydi Manon

Shakespeare, John Jones a John Bryn Williams. Diolch i'r tri ohonyn nhw am gytuno i gynorthwyo.

Cyfarfu'r cynrychiolwyr efo swyddogion Capel y Traeth a chynrychiolwyr yr Henaduriaeth sef y Parch R O Roberts a Meinir Lloyd Jones, nos Iau, 13 Medi. Cawsom drafodaeth lawn ar ein cyfrifoldebau a'r materion a godwyd gan ein haelodau yn ogystal ag arweiniad manwl yn seiliedig ar y canllawiau ar gyfer sefydlu Gweinidogaeth Bro a baratowyd gan Bwyllgor Ymgynghorol Cydenwadol ar y Weinidogaeth. Cafwyd cefnogaeth unfrydol y pwyllgor i Symud Ymlaen.

Gobeithiwn gynnal y cyntaf o'r Cyfarfodydd Bugeiliol efo Gofalaeth y Parch Iwan Llewelyn Jones ar ôl i ni dderbyn sylwadau pellach gan yr Henaduriaeth / Cyfundeb.

**Cofion** Dyma anfon ein cofion cynhesaf atoch unwaith eto gan fawr obeithio eich bod i gyd yn teimlo'n weddol ar ddechrau Hydref fel hyn. Rydym yn meddwl yn arbennig am y rhai ohonoch sydd mewn Cartref Gofal neu yn gaeth i'ch cartrefi. Gweddïwn drosoch a dros y rhai sydd yn gofalu amdanoch. Rydym hefyd yn cofio at y rhai ohonoch sydd heb fod yn rhy dda'n ddiweddar. Gobeithio y cewch gysur o wybod ein bod yn meddwl amdanoch.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr Peter Harlech Jones a gollodd ei chwaer, Valerie yn ddiweddar. Rydym yn meddwl amdanoch yn eich colled ac yn cofio atoch yn gynnes iawn fel teulu.

Rydym yn cofio at Mrs Mair Williams, Crud y Gwynt, sydd yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn codwm yn ei chartref. Rydym yn meddwl amdanoch ac yn gobeithio y byddwch yn well yn fuan Mair.

Roedd yn ddrwg gennym glywed fod un o bobl ifanc y Clwb Sul, sef Iago Gwyn, wedi cael ei gipio i Ysbyty Alder Hey yn dilyn damwain go ddrwg. Mae'n braf cael dweud ei fod adref erbyn hyn ac yn gwella. Rydym yn cofio atat yn gynnes iawn Iago.

Pleser yw cael llongyfarch y Parch Pryderi Llwyd Jones ar gael ei gydnabod gan yr Henaduriaeth am gyflawni 50 mlynedd yn y Weinidogaeth.



**Te bach Prynhawn** Daeth nifer dda i fwynhau y te bach prynhawn yn y Ffestri. Roedd y danteithion yn flasu a'r sgwrs yn felys. Diolch i'r Chwirydd am drefnu ac i Elisabeth Bebb am olchi yr holl lestri.

**Drws Agored** Mae'r boreau yma yn brysur ddirwyn i ben. Bydd yr olaf bore Mawrth 9 Hydref. Mi fydd hwn yn achlysur arbennig gan mai'r Brodyr ffyddlon fydd yng ngofal y baned a'r tîst! Cofiwch ddod i'w cefnogi. Nid yw'n fwriad gennym fod yn segur dros dymor y Gaeaf cofiwch gan y bwriadwn ddarparu brechwast blasus yn y Ffestri ar y dydd Mawrth cyntaf o bob mis, rhwng 9.15 a 10.45, o 6 Tachwedd tan y Pasg. Cewch fwy o fanylion yn y Cylchlythyr nesaf.




**Cylch Trafod** Bydd Cylch Trafod cyntaf y tymor, yn y Ffestri, bore Mawrth 13 Tachwedd, rhwng 10.30 a 11.30. Mr John Bryn Williams fydd yn arwain y cyfarfod cyntaf a'r testun fydd **Maddeuant**. Os ydych chi yn fodlon arwain un o'r cyfarfodydd yma, buasem yn ddiolchgar iawn. Gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda.

**Y Gymdeithas Ddiwylliadol** Daeth nifer dda i fwynhau cyfarfod cyntaf y Gymdeithas. Noson oedd yn llawn hwyl yng nghwmni Mair Tomos Ifans. Cawsom ein diddanu gydag ambell i stori, chwedl a chân. Mae rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu eto eleni a bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth 16 Hydref pryd y bydd criw o hogia Pen Llŷn yn cyflwyno casgliad o ganeuon ysgafn Cymreig. Noson hwyliog dan ofal Gwenda Williams.

## Cyfarfodydd y Chwiorydd

Fel y gwyddoch mae'r rhain yn gyfarfodydd misol pryd y mae amrywiaeth o faterion yn cael eu trafod. Maent yn gyfarfodydd hwyliog a chynnes iawn a chais sydd gennym i fwy o chwiorydd ymuno efo ni. Dewch i'r cyfarfod nesaf yn y Ffestri am 1.00 o'r gloch pnaawn Mawrth, 9 Hydref. Mae croeso mawr yn eich aros.

## Gwasanaeth Diolchgarwch



Plant a rheni'r Clwb Sul fydd yn gyfrifol am y Gwasanaeth yma eto eleni ac rwy'n siwr ein bod yn erych ymlaen yn fawr at yr hyn fydd ganddynt ar ein cyfer. Bydd y casgliad, fel arfer, yn mynd at waith Cymorth Cristnogol.

**Swper Diolchgarwch** Cofiwch am y swper Diolchgarwch ar 14 Hydref am 5 o gloch yn y Ffestri. Dim angen rhoi eich enw o flaen llaw, dim ond dod a mwynhau. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad at Apêl Madagascar.

**Derbyn yn Aelod.** Pleser fore Sul 23 Medi, oedd cael derbyn Mrs Wendy Rees yn aelod llawn o'r Eglwys. Bu Wendy yn aelod yng Nghapel Moreia, Llanystumdwy ers yn blentyn ond gan fod yr Achos yno wedi dod i ben yn ddiweddar mae Wendy wedi ymuno efo'i gŵr, Dr Ian Rees sydd yn aelod yng Nghapel y Traeth ers blynyddoedd. Croeso mawr i'n plith Wendy.

Charles



Darwin

## Cariad a Darwin

Wynebodd Charles Darwin ym 1859 wrthwynebiad gyda'r ffyrnicaf i'w syniadau ymysg dilynwyr Mwslimaeth, Iddewaeth a Christnogaeth ffundamentalaid wrth gefnu ar y gwahanol gredoau am

ddatblygiad y ddynoliaeth a chreaduriaid eraill. Yn y byd Cristnogol, yn arbennig yn yr Unol Daleithiau, mae ei ddaliadau'n waharddedig o hyd gan lawer ym myd addysg. Bwgan arall i'r Creu traddodiadol yw'r Athro Richard Dawkins, a gyhoeddodd 'The Selfish Gene' ym 1976, yn ogystal â sawl llyfr arall yn datblygu syniadau Darwin.

Fis nesaf cyhoeddir astudiaeth gan yr Athro Robert Plomin, Llundain, o enynnau (*genes*) dynol, ble cyhoedda fod ein genynnau'n gyfrifol nid yn unig, fel gŵyr y rhan fwyaf ohonom, am liw gwallt a llygaid ond am lu o nodweddion eraill, megis dyfalbarhad, iselder ysbryd, galluedd corfforol a meddyliol, tueddiadau creadigol a hyd yn oed gymwynasgarwch, neu gariad. Casgliad Plomin yw mai'n tueddiadau genynnol sy'n ein gyrru, er nad yw'r broses yma'n ein rhagdynggedu i beidio defnyddio dewis rhydd i drechu'n tueddiadau difaol.

Mae'r elfen 'gariadus' ynom yn adleisio casgliadau Darwin a Dawkins yn eu sylwadau am gymwynasgarwch; 'câr dy gymydog', 'Duw cariad yw' – sy'n troi'n hawdd yn 'cariad Duw yw', sef mai'r elfen gariadus ynom sy'n haeddu'n haddoliad. Ymhen hir a hwyr, dywedir, bydd dadansoddiad o'n genynnau i'w weld ar ein cofnodion meddygol; toc, efallai, bydd technoleg enynnol yn gallu lleihau nid yn unig ddiffygion iechyd ond hefyd leihau tueddiadau anghymdeithasol a hunan-ddinistriol. Dengys Dawkins yn ei ysgrif mai'r gymdeithas sydd yn goroesi yw honno ble mae'r gennyn dynolgar yn y mwyafrif, ac mai difodiant sy'n wynebu'r gymdeithas arall.

**Y CLWB SUL** Dyma ni'n ôl yn deulu bach hapus a bywiog ar ddechrau tymor newydd. Ffrindiau da a gofalu am ein gilydd, fel mae lesu Grist yn gofalu amdanom ni, oedd ein gwrs gyntaf. Roedd Anti Elin wedi dod â dau afal mawr coch efo hi ac roeddem yn methu deall beth oedd hi am wneud efo nhw. Cawsom ein rhannu yn ddau grŵp ac yna'n barau. Roedd y paru yn y grŵp cyntaf yn gorfod dweud pethau câs wrth ei gilydd a'r paru yn yr ail grŵp yn dweud pethau caredig wrth ei gilydd. Wedyn dyna Anti Elin yn rhoi y ddau afal ar y bwrdd a dweud wrthym am edrych arnynt a wir roeddent yn berffaith. Dyma dorri'r ddau afal yn eu hanner a gweld bod un wedi cleisio ac yn frown oddi mewn er ei fod i weld yn berffaith oddi allan, tra roedd y llall yn berffaith oddi mewn ac oddi allan. Y wers wrth gwrs oedd bod geiriau câs yn gallu brifo chi llawn cymaint â chicio. Oddi mewn mae geiriau'n brifo a gwneud i chi deimlo'n drist. Rydym wedi addo cofio'r wers yma bob amser.

Buom yn rhedeg Râs y Cob eto eleni i godi arian at achosion da. Dyma luniau o rhai ohonom yn ystod y râs.



Dydd Sul diwethaf cawsom wers ar greu y byd a sut y dylem ofalu amdano. Ar ôl y wers buom yn helpu i gasglu sbwriel ar lan y môr.



**Clwb Ieuenctid Capel y Traeth** Dyma ichi newyddion cyffrous. Mi fydd y cyfarfod cyntaf nos Iau, 4 Hydref am 6 o'r gloch yn y Festri. Mae croeso mawr i ddisgyblion blwyddyn 6 a disgyblion ysgol uwchradd. Fe allwch ddod ag un ffrind efo chi i'r cyfarfodydd.